



TGAU, Safon UG a Safon Uwch Dylunio a Thechnoleg

Cyflwyniad

Mae cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch mewn Dylunio a Thechnoleg yn cael eu diwygio yng Nghymru i'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2017. Caiff y cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch diwygiedig mewn Dylunio a Thechnoleg eu datblygu gan CBAC a dyma fydd yr unig fersiynau o'r cymwysterau fydd ar gael i ddysgwyr ar raglenni a ariennir gan y wladwriaeth yng Nghymru, gan nad oes unrhyw fwrdd arholi arall wedi penderfynu datblygu'r cymhwyster hwn i'w ddefnyddio yng Nghymru. Fel rhan o'r broses ddiwygio, rydym yn ceisio barn ar ein cynigion o ran cynnwys, strwythur ac asesiad y cymhwyster diwygiedig.

Rydym wedi llunio'r cynigion yn yr holiadur hwn mewn ymgynghoriad â nifer o randdeiliaid, gan gynnwys CBAC, ymarferwyr mewn ysgolion a cholegau Addysg Bellach, prifysgolion, Estyn a Llywodraeth Cymru. Bydd canlyniadau'r holiadur hwn yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu meini prawf cymeradwyo ac amodau rheoleiddiol ar gyfer y cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch newydd mewn Dylunio a Thechnoleg. Caiff y manylebau a'r deunyddiau asesu enghreifftiol ar gyfer y cymwysterau hyn eu llunio a'u cymeradwyo ar sail y meini prawf cymeradwyo a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru.



TGAU, Safon UG a Safon Uwch Dylunio a Thechnoleg

TGAU mewn Dylunio a Thechnoleg

Nodau a chynnwys pwnc

Gellir dod o hyd i nodau a chynnwys pwnc y cymhwyster TGAU cyfredol mewn Dylunio a Thechnoleg yn y ddolen isod:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/371236/11-10-19-gcse-subject-criteria-d-and-t.pdf

Cynigiwn y dylai'r cymhwyster TGAU diwygiedig mewn Dylunio a Thechnoleg yng Nghymru gadw'r rhan fwyaf o'r nodau a'r cynnwys pwnc cyfredol, ond gan roi mwy o bwyslais ar egwyddorion technegol.

Nodau ac amcanion pwnc

Mae'r nodau arfaethedig yn seiliedig ar elfennau o'r meini prawf pwnc cyfredol a chynnwys pwnc y cymhwyster Dylunio a Thechnoleg newydd yn Lloegr. Cynigiwn y nodau pwnc a'r deilliannau dysgu canlynol ar gyfer y cymhwyster TGAU diwygiedig mewn Dylunio a Thechnoleg.

- Dylai'r cymhwyster TGAU mewn Dylunio a Thechnoleg ysbrydoli, hysbysu a chymhell drwy gynnig astudiaethau sy'n rhoi cipolwg ar sectorau dylunio a thechnoleg cysylltiedig. Dylai'r cymhwyster baratoi dysgwyr i wneud penderfyniadau hyddysg am gyfleoedd dysgu a dewisiadau gyrfa pellach.

- Rhaid i'r cymhwyster TGAU mewn Dylunio a Thechnoleg alluogi dysgwyr i wneud y canlynol:

- meithrin gwerthfawrogiad o bwysigrwydd creadigrwydd ac arloesedd i brosesau dylunio da;
- cymryd rhan weithredol yn y prosesau dylunio a thechnoleg er mwyn datblygu'n ddysgwyr effeithiol ac annibynnol;
- deall egwyddorion dylunio a gwneud allweddol;
- defnyddio eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth i wneud penderfyniadau ynghylch dylunio er mwyn gwneud cynhyrchion o ansawdd;
- dadansoddi cynhyrchion sy'n bodoli eisoes a llunio atebion ymarferol i anghenion, dyheadau a chyfleoedd, gan gydnabod eu heffaith ar ansawdd bywyd;
- gweithio'n annibynnol ac ar y cyd;
- dadansoddi'n feirniadol gysylltiadau rhwng egwyddorion dylunio da, atebion sy'n bodoli eisoes a gwybodaeth dechnolegol;
- deall yr egwyddorion technegol sylfaenol o fewn dylunio a thechnoleg yn eu maes penodol â ffocws, gyda phwyslais ar dechnolegau, deunyddiau ac arferion sy'n dod i'r amlwg.

Cynnwys pwnc

Cynigiwn y cynnwys pwnc canlynol ar gyfer y cymhwyster TGAU newydd mewn Dylunio a Thechnoleg yng Nghymru:

- Rhaid i'r fanyleb TGAU mewn Dylunio a Thechnoleg adlewyrchu'r deilliannau dysgu yn y cynnwys

- Rhaid i'r fanyleb TGAU mewn Dylunio a Thechnoleg ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth drwy:
 - ymateb yn greadigol i friff, datblygu eu cynigion eu hunain a llunio manylebau ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau cysylltiedig;
 - cynhyrchu, datblygu a chyfleu syniadau mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan ddefnyddio strategaethau priodol;
 - adnabod effaith dylunio a thechnoleg ar ddatblygu cynaliadwy a chyfrifoldeb cymdeithasol;
 - defnyddio eu dealltwriaeth o ddylunwyr a chynhyrchion eraill i lywio eu harfer eu hunain;
 - cynllunio a threfnu gweithgareddau, ac yna llunio, ffurfio, cymysgu, adeiladu a gorffen deunyddiau, cydrannau neu gynhwysion fel y bo'n briodol;
 - dewis cyfarpar, deunyddiau a thechnoleg priodol er mwyn cefnogi'r broses dylunio a gwneud;
 - myfyrio'n feirniadol wrth werthuso ac addasu eu syniadau a'u cynigion i wella'r cynhyrchion drwy gydol y broses o ddatblygu a gweithgynhyrchu.

- Rhaid i'r fanyleb TGAU mewn Dylunio a Thechnoleg roi cyfleoedd i ddysgwyr wneud y canlynol:
 - dylunio mewn modd creadigol;
 - defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau a thechnolegau;
 - dadansoddi a gwerthuso prosesau a chynhyrchion;
 - ystyried gwahanol strategaethau dylunio, cyfathrebu a datblygu cynaliadwy;
 - deall iechyd a diogelwch mewn cyd-destun dylunio a thechnoleg;

C1: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r nodau a'r cynnwys pwnc arfaethedig ar gyfer y cymhwyster TGAU mewn Dylunio a Thechnoleg yng Nghymru?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



TGAU, Safon UG a Safon Uwch Dylunio a Thechnoleg

Meysydd ffocws

Mae meini prawf pwnc y cymhwyster TGAU cyfredol mewn Dylunio a Thechnoleg yn nodi'r canlynol:

'Rhaid i fanylebau alluogi dysgwyr i arbenigo mewn un maes ffocws er mwyn eu galluogi i gymhwyso eu gwybodaeth arbenigol, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o ddylunio a thechnoleg.'

Nid yw'r meini prawf yn rhagnodi rhestr o feysydd ffocws diffiniedig. Mae pob un o'r cymhwysterau TGAU cyfredol mewn Dylunio a Thechnoleg a gynigir yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cynnwys rhai o'r meysydd ffocws canlynol:

- Cynnyrch graffig
- Dylunio cynnyrch
- Technoleg deunyddiau gwydn
- Systemau a thechnoleg reoli
- Technoleg tecstiliau
- Cynhyrchion electronig
- Technoleg bwyd (nid yw ar gael mwyach)
- Yn achos y cymhwyster TGAU diwygiedig yn Lloegr, mae'r Adran Addysg ac Ofqual (rheoleiddiwr arholiadau a chymwysterau yn Lloegr) wedi penderfynu na fydd meysydd ffocws yn rhan ohono.

Yn achos y cymhwyster TGAU diwygiedig yn Lloegr, mae'r Adran Addysg ac Ofqual (rheoleiddiwr arholiadau a chymwysterau yn Lloegr) wedi penderfynu na fydd meysydd ffocws yn rhan ohono.

Dangosodd y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw yng Nghymru gryn gefnogaeth i gadw meysydd ffocws o fewn y cymhwyster TGAU diwygiedig gan eu bod yn helpu dysgwyr i ddatblygu drwy eu hannog i feithrin a defnyddio lefel uwch o wybodaeth a dealltwriaeth o'r pwnc mewn maes penodol.

Cynigiwn y dylid cadw'r gofyniad i ddysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth arbenigol o Ddylunio a Thechnoleg mewn perthynas â maes ffocws penodol. Er mwyn cefnogi datblygiad dysgwyr, cynigiwn y dylai'r un dewis o feysydd ffocws gael ei gynnig ar lefel TGAU, UG a Safon Uwch. Bwriedir i'r meysydd ffocws a gynigir gennym gydbwysu'r angen i feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth eang o'r pwnc, ym mha faes bynnag y byddant yn dewis arbenigo ynddo, a thanlinellu pwysigrwydd yr egwyddorion a'r broses ddylunio, yn hytrach na chanolbwyntio ar ddeunyddiau penodol yn unig. Cynigiwn y meysydd ffocws canlynol:

1. Dylunio Cynnyrch
2. Dylunio Peirianeg
3. Ffasiwn a Thecstilau
4. Dylunio Cyfathrebu

Mae'r tri maes ffocws cyntaf a gynigir yn cyfateb i'r rhai sy'n ofynnol ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch diwygiedig yn Lloegr. Rydym hefyd yn cynnig 'Dylunio Cyfathrebu' ar ben hynny. Mae'r maes ffocws hwn yn cwmpasu agweddau ar dechnoleg ddylunio, gan gynnwys dylunio graffeg a chyfleu gwybodaeth drwy gyfryngau argraffedig a digidol. Gallai'r sgiliau ymarferol a gaiff eu meithrin yn y maes ffocws newydd hwn gynnwys creu gwefan, datblygu brand cwmni neu lunio deunydd hyrwyddo drwy gyfryngau argraffedig a digidol.

Yng Nghymru a Lloegr, mae'r maes ffocws Technoleg Bwyd eisoes wedi diflannu o'r cymhwyster TGAU presennol mewn Dylunio a Thechnoleg yng Nghymru. Yn ei le, cyflwynir y cymhwyster TGAU newydd mewn Bwyd a Maeth o fis Medi 2016. Ni chynigiwn y dylid ailgyflwyno technoleg bwyd yn faes ffocws yn y cymhwyster TGAU newydd mewn Dylunio a Thechnoleg.

C2: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r meysydd ffocws arfaethedig ar gyfer y cymhwyster TGAU yng Nghymru?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fydddechystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



TGAU, Safon UG a Safon Uwch Dylunio a Thechnoleg

Amcanion asesu

Mae amcanion asesu yn pennu sut y dylai cynnwys pwnc gael ei asesu.

Mae'r amcanion asesu a'u pwysoliadau ar gyfer y cymhwyster TGAU cyfredol mewn Dylunio a Thechnoleg fel a ganlyn:

Amcan	Gofynion	TGAU
AA1	Dwyn i gof, dewis a chyfleu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddylunio a thechnoleg, gan gynnwys ei effeithiau ehangach.	25 - 35%
AA2	Cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth ddylunio a gwneud cynhyrchion.	45 - 55%
AA3	Dadansoddi a gwerthuso cynhyrchion, gan gynnwys eu dylunio a'u gwneud.	15%

Cynigir yr amcanion asesu a'r pwysoliadau canlynol ar gyfer y cymhwyster TGAU diwygiedig mewn Dylunio a Thechnoleg yn Lloegr:

Amcan	Gofynion	TGAU
AA1	Nodi, archwilio ac amlinellu posibiliadau dylunio er mwyn ymdrin ag anghenion a dymuniadau	10%
AA2	Dylunio a gwneud prototeipiau sy'n addas at y diben	30%
AA3	Dadansoddi a gwerthuso – <ul style="list-style-type: none">• penderfyniadau a chanlyniadau dylunio, gan gynnwys ar gyfer prototeipiau a wneir ganddynt hwy eu hunain ac eraill• materion ehangach ym maes dylunio a thechnoleg	20%
AA4	Arddangos a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol – <ul style="list-style-type: none">• egwyddorion technegol• egwyddorion dylunio a gwneud	40%

Ar gyfer y cymhwyster TGAU diwygiedig mewn Dylunio a Thechnoleg yng Nghymru, cynigiwn y dylid defnyddio'r un amcanion asesu a phwysoliadau â Lloegr, ond gan newid geiriad AA4 ryw ychydig er mwyn adlewyrchu'r gwahaniaeth yn nodau, cynnwys a meysydd ffocws y pwnc. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y gellir cymharu'r cymwysterau TGAU diwygiedig mewn Dylunio a Thechnoleg yng Nghymru a Lloegr. Bydd angen i'r corff dyfarnu sicrhau bod y cynnwys manwl a geir mewn manylebau TGAU yng Nghymru yn gydnaws â'r amcanion asesu ac yn sicrhau datblygiad priodol rhwng pob lefel astudio.

Felly, cynigiwn yr amcanion asesu a'r pwysoliadau canlynol ar gyfer y cymhwyster diwygiedig yng Nghymru:

Amcan	Gofynion	TGAU
AA1	Nodi, archwilio ac amlinellu posibiliadau dylunio er mwyn ymdrin ag anghenion a dymuniadau	10%
AA2	Dylunio a gwneud cynhyrchion sy'n addas at y diben	30%
AA3	Dadansoddi a gwerthuso – <ul style="list-style-type: none"> • penderfyniadau a chanlyniadau dylunio, gan gynnwys ar gyfer cynhyrchion a wneir ganddynt hwy eu hunain ac eraill • materion ehangach ym maes dylunio a thechnoleg 	20%
AA4	Arddangos a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion dylunio a thechnoleg.	40%

C3: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r amcanion asesu a'r pwysoliadau uchod fod yn gymwys yng Nghymru?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



TGAU, Safon UG a Safon Uwch Dylunio a Thechnoleg

Asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau

Mae'r manylebau cyfredol ar gyfer y cymhwyster TGAU mewn Dylunio a Thechnoleg yn cynnwys asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau (a nodir fel 'tasg a asesir dan reolaeth' ar hyn o bryd).

Pwysleisiodd rhanddeiliaid yng Nghymru yr angen i sicrhau bod y cynnwys a'r amcanion asesu yn adlewyrchu'r broses ddylunio iteradd: er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael y cyfle i ystyried cyd-destunau, datblygu syniadau, ystyried opsiynau anghyfarwydd a mabwysiadu dull anrhagnodol o ddod o hyd i atebion, gwerthuso, mireinio a chynhyrchu canlyniadau.

Cynhelir y gweithgareddau hyn dros gyfnod estynedig o amser ac mae cysylltiad annatod rhyngddynt. Mae asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau yn fodd i gasglu tystiolaeth asesu drwy gydol y broses dylunio a chynhyrchu, gan sicrhau y gall y daith ddylunio lawn gael ei chofnodi a'i hasesu.

Cydnabyddwn fod y sgiliau a nodir mewn nifer o'r amcanion asesu yn cyfrannu at ganlyniad dylunio a gwneud llwyddiannus. Cynigiwn y dylai cyfran o AA1, AA2 ac AA3 gael ei hasesu yn erbyn yr asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau. Bydd angen i gorff dyfarnu roi rhesymeg dros y cydbwysedd penodol o amcanion asesu a gyflawnir yn yr arholiad a'r asesiad nas cynhelir drwy arholiadau yn ei fanyleb.

Cynigiwn y dylai portffolio tystiolaeth ac arteffact gael eu llunio a'u hasesu fel rhan o'r asesiad nas cynhelir drwy arholiadau. Hefyd, cynigiwn y dylai'r asesiad nas cynhelir drwy arholiadau roi mwy o bwyslais ar gymhwyso sgiliau ymarferol nag ar ddogfennu'r broses ddylunio, fel yn y manylebau cyfredol.

C4: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig uchod?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



TGAU, Safon UG a Safon Uwch Dylunio a Thechnoleg

Gofynion asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau

Ar hyn o bryd, mae'r pwysoliad rhwng arholiadau ac asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau ar lefel TGAU yn 40% a 60%, yn y drefn honno. Yn sgil ymgynghori â rhanddeiliaid yng Nghymru, cynigiwn y dylid sicrhau'r un gyfran o arholiadau ac asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau. Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnig ar gyfer y cymhwyster TGAU newydd mewn Dylunio a Thechnoleg yn Lloegr.

C5: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau gael eu pwysoli 50% ar gyfer y cymhwyster TGAU mewn Dylunio a Thechnoleg?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod
- Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



TGAU, Safon UG a Safon Uwch Dylunio a Thechnoleg

Haenu

Mewn rhai cymwysterau TGAU, caiff rhan o'r cymhwyster, neu'r cymhwyster cyfan, ei asesu drwy bapurau arholiad haenog. Mewn asesiadau haenog, mae gwahanol raddau ar gael ar bob haen; yn y rhan fwyaf o gymwysterau TGAU y graddau posibl yw A* i D yn yr haen uchaf, a graddau C i G yn yr haen sylfaen. Mae cymwysterau TGAU mewn rhai pynciau yn haenog oherwydd ar gyfer rhai pynciau caiff lefel anhawster yr asesiad ei phennu yn fwy gan y ffordd y mae ymgeiswyr yn ymateb i gwestiynau (cwestiynau ar ffurf traethawd er enghraifft) yn hytrach na'r cwestiwn ei hun, tra mewn pynciau eraill caiff y lefel o anhawster ei phennu'n fwy gan natur y cwestiwn a ofynnir na'r ateb a roddir (megis lle nad oes ond un ateb cywir). Mae pynciau sy'n dibynnu mwy ar anhawster y cwestiynnau i wahaniaethu rhwng ymgeiswyr yn tueddu i gael asesiad haenog. Mae asesiad haenog yn osgoi'r heriau sy'n gysylltiedig â cheisio gosod un papur er mwyn asesu carfan gyfan. Oni fyddai'r pynciau hyn yn haenog, yna byddai'n rhaid i'r papurau arholiad fod yn fwy er mwyn cynnwys digon o gwestiynau ar bob lefel o anhawster, a fyddai'n cynyddu faint o asesiad y byddai ei angen. Mae hefyd risg y byddai'r asesiad yn llai dibynadwy, oherwydd bod ymchwil yn dangos bod yr ymgeiswyr mwy galluog yn aml yn colli marciau ar gwestiynau llai heriol a bod ymgeiswyr llai galluog yn colli cymhelliant gan y cwestiynau mwy heriol.

Mae'r Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru yn argymhell "dim ond pan fydd achos clir dros wneud hynny oherwydd natur y pwnc y dylid caniatáu haenu".

Cynigiwn na fydd y cymhwyster TGAU Dylunio a Thechnoleg diwygiedig yn gymhwyster haenog.

C6: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno na ddylai'r cymhwyster TGAU mewn Dylunio a Thechnoleg fod yn haenog?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod
- Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



Datblygiad proffesiynol parhaus/adnoddau

C7: Yn eich barn chi, pa gymorth ac adnoddau y gallai fod eu hangen ar ganolfannau ac athrawon er mwyn bod yn gwbl barod i gyflwyno'r fanyleb ddiwygiedig? Yn arbennig, hoffem gael unrhyw wybodaeth bellach am y datblygiad proffesiynol parhaus ac adnoddau sydd eu hangen er mwyn cyflwyno'r maes ffocws Dylunio Cyfathrebu.

Rhowch sylwadau



TGAU, Safon UG a Safon Uwch Dylunio a Thechnoleg

Effaith ar gydraddoldeb

Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010 rhaid i gyrff cyhoeddus roi 'sylw dyledus', wrth wneud penderfyniadau, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth mewn perthynas ag unigolion na grwpiau, er mwyn cyflawni cydraddoldeb a meithrin cydberthnasau da o ran nodweddion gwarchoddedig (oedran, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hil, crefydd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth ac ailbennu rhywedd).

C8: O ystyried hyn, nodwch isod a allai unrhyw ran o'r cynnig hwn gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar unigolion â nodweddion gwarchoddedig a ph'un a fyddai unrhyw ran o'r cynnig yn peri problemau o ran hygyrchedd i ddysgwyr yng Nghymru.



TGAU, Safon UG a Safon Uwch Dylunio a Thechnoleg

Safon Uwch Dylunio a Thechnoleg

Nodau a chynnwys pwnc

Gellir dod o hyd i nodau a chynnwys pwnc y cymhwyster Safon Uwch cyfredol mewn Dylunio a Thechnoleg yn y ddolen isod:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/371160/11-10-18-gce-design-and-technology.pdf

Mae nodau a chynnwys pwnc y cymhwyster Safon Uwch diwygiedig mewn Dylunio a Thechnoleg yn Lloegr wedi newid yn sgil rhoi mwy o bwyslais ar fathemateg, gwyddoniaeth, egwyddorion technegol ac egwyddorion dylunio a gwneud.

Cyhoeddodd yr Adran Addysg yn Lloegr gynnwys pwnc y cymhwyster Safon Uwch diwygiedig mewn Dylunio a Thechnoleg (ar gyfer Lloegr) ym mis Rhagfyr 2015. Rhoddir y ddolen iddo isod:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/485436/D_and_T_A_level.pdf

Ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch diwygiedig mewn Dylunio a Thechnoleg yng Nghymru, cynigiwn y dylai'r nodau a'r cynnwys pwnc fod yn gydnaws â'r nodau a'r cynnwys a bennwyd gan yr Adran Addysg er mwyn sicrhau'r canlynol:

- y gellir cymharu cymwysterau UG a Safon Uwch Cymru a Lloegr;
- bod y cymhwyster yn gymwys ledled y DU;
- y gellir camu ymlaen i Addysg Bellach ac Uwch neu gyflogaeth.

C9: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r nodau a'r cynnwys pwnc arfaethedig ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch mewn Dylunio a Thechnoleg yng Nghymru?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



TGAU, Safon UG a Safon Uwch Dylunio a Thechnoleg

Meysydd ffocws

Mae meysydd ffocws yn bodoli o fewn y cymhwyster Safon Uwch cyfredol mewn Dylunio a Thechnoleg fel y nodir drwy feini prawf pwnc y cymhwyster Safon Uwch cyfredol mewn Dylunio a Thechnoleg:

'Dylai manylebau UG a Safon Uwch mewn Dylunio a Thechnoleg hefyd alluogi dysgwyr i arbenigo mewn maes neu feysydd cytras fel dylunio cynnyrch, systemau a rheolaeth, neu fwyd. Wrth ddatblygu manylebau UG a Safon Uwch dylai pob maes ffocws fod yr un mor bwysig.'

Ar hyn o bryd, mae'r cymhwyster Safon Uwch mewn Dylunio a Thechnoleg yn cael ei ddiwygio yn Lloegr. Mae'r Adran Addysg ac Ofqual (y rheoleiddiwr cymwysterau yn Lloegr) wedi penderfynu mai'r canlynol a ddylai fod yn feysydd ffocws ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch diwygiedig mewn Dylunio a Thechnoleg yn Lloegr:

- Peirianeg dylunio
- Ffasiwn a thecstilau
- Dylunio cynnyrch

Cynigiwn y dylid cadw'r gofyniad i ddysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth arbenigol o ddylunio a thechnoleg mewn perthynas â maes ffocws penodol. Er mwyn cefnogi datblygiad dysgwyr, cynigiwn y dylai'r un dewis o feysydd ffocws gael ei gynnig ar lefel TGAU, UG a Safon Uwch.

Bwriedir i'r meysydd ffocws a gynigir gennym gydbwysu'r angen i feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth eang o'r pwnc, ym mha faes bynnag y byddant yn dewis arbenigo ynddo, a thanlinellu pwysigrwydd yr egwyddorion a'r broses ddylunio, yn hytrach na'r deunyddiau penodol a ddefnyddir. Cynigiwn y meysydd ffocws canlynol:

1. Dylunio Cynnyrch
2. Dylunio Peirianeg
3. Ffasiwn a Thecstilau
4. Dylunio Cyfathrebu

Cynigir y maes ffocws newydd, 'Dylunio Cyfathrebu', er mwyn sicrhau y gall gwybodaeth a dealltwriaeth o arferion dylunio a thechnoleg sy'n dod i'r amlwg gael eu meithrin drwy gymhwyster Safon Uwch mewn Dylunio a Thechnoleg. Mae Dylunio Cyfathrebu yn cwmpasu agweddau ar dechnoleg ddylunio, gan gynnwys dylunio graffeg a chyfleu gwybodaeth drwy gyfryngau argraffedig a digidol. Gallai'r sgiliau ymarferol a gaiff eu meithrin yn y maes ffocws newydd hwn gynnwys creu gwefan, datblygu brand cwmni neu lunio deunydd hyrwyddo drwy gyfryngau argraffedig a digidol.

Mae'r maes ffocws Technoleg Bwyd wedi diflannu o'r cymhwyster TGAU presennol mewn Dylunio a Thechnoleg ac wedi'i gynnwys yn y cymhwyster TGAU newydd mewn Bwyd a Maeth. Mae hefyd wedi diflannu o'r cymhwyster Safon Uwch newydd mewn Dylunio a Thechnoleg, ond ni chyflwynwyd cymhwyster Safon Uwch annibynnol yn ei le. Ni chynigiwn y dylid ailgyflwyno'r ffocws hwn yn y cymhwyster UG a Safon Uwch newydd mewn Dylunio a Thechnoleg yng Nghymru.

C10: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r meysydd ffocws arfaethedig ar gyfer y cymhwyster UG a Safon Uwch yng Nghymru?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



TGAU, Safon UG a Safon Uwch Dylunio a Thechnoleg

Amcanion asesu

Mae amcanion asesu yn pennu sut y dylai cynnwys pwnc gael ei asesu.

Mae'r amcanion asesu a'u pwysoliadau ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch cyfredol mewn Dylunio a Thechnoleg fel a ganlyn:

Amcan	Gofynion	Safon Uwch
AA1	Dylai'r ymgeiswyr amlygu gwybodaeth a dealltwriaeth benodol a gallu cymhwyso'r wybodaeth a dealltwriaeth honno ar y cyd â sgiliau priodol wrth ddylunio; a dylent gyfleu syniadau a chanlyniadau a dangos strategaethau ar gyfer gwerthuso.	40-60%
AA2	Dylai'r ymgeiswyr allu amlygu a chymhwyso sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o ddefnyddiau, prosesau a thechnegau perthnasol, a defnyddio defnyddiau a chyfarpar i gynhyrchu canlyniadau addas a phriodol; a dylent gyfleu syniadau a chanlyniadau a dangos strategaethau ar gyfer gwerthuso.	40-60%

Cynigir yr amcanion asesu a'r pwysoliadau canlynol ar gyfer y cymhwyster diwygiedig mewn Dylunio a Thechnoleg yn Lloegr (o fis Rhagfyr 2015):

Amcan	Gofynion	UG	Safon Uwch
AA1	Nodi, archwilio ac amlinellu posibiliadau dylunio er mwyn ymdrin ag anghenion a dymuniadau	10-15%	10-15%
AA2	Dylunio a gwneud prototeipiau creadigol sy'n addas at y diben	20-25%	20-25%
AA3	Dadansoddi a gwerthuso – <ul style="list-style-type: none"> • penderfyniadau a chanlyniadau dylunio, gan gynnwys ar gyfer prototeipiau a wneir ganddynt hwy eu hunain ac eraill • materion ehangach ym maes dylunio a thechnoleg 	20-25%	20-25%
AA4	Arddangos a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol – <ul style="list-style-type: none"> • egwyddorion technegol • egwyddorion dylunio a gwneud 	35-40%	35-40%

Ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch diwygiedig mewn Dylunio a Thechnoleg yng Nghymru, cynigiwn y dylai'r amcanion asesu a'r pwysoliadau diwygiedig ar gyfer Lloegr gael eu defnyddio er mwyn sicrhau y gellir eu cymharu â'r cymhwyster Safon Uwch diwygiedig mewn Dylunio a Thechnoleg yng Nghymru a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn Lloegr. Disgwylid i'r corff dyfarnu sicrhau bod y cynnwys manwl a bennir ar lefel Safon Uwch yn gydnaws â'r amcanion asesu ac yn sicrhau datblygiad priodol rhwng pob lefel astudio.

Felly, cynigiwn yr amcanion asesu a'r pwysoliadau canlynol ar gyfer y cymhwyster diwygiedig yng Nghymru:

Amcan	Gofynion	UG	Safon Uwch
AA1	Nodi, archwilio ac amlinellu posibiliadau dylunio er mwyn ymdrin ag anghenion a dymuniadau	10-15%	10-15%
AA2	Dylunio a gwneud prototeipiau sy'n addas at y diben	20-25%	20-25%
AA3	Dadansoddi a gwerthuso – <ul style="list-style-type: none"> • penderfyniadau a chanlyniadau dylunio, gan gynnwys ar gyfer prototeipiau a wneir ganddynt hwy eu hunain ac eraill • materion ehangach ym maes dylunio a thechnoleg 	20-25%	20-25%
AA4	Arddangos a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol – <ul style="list-style-type: none"> • egwyddorion technegol • egwyddorion dylunio a gwneud 	35-40%	35-40%

C11: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r amcanion asesu a'r pwysoliadau fod yn gymwys i'r cymhwyster Safon Uwch mewn Dylunio a Thechnoleg yng Nghymru?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

Sylwadau (a fydddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



TGAU, Safon UG a Safon Uwch Dylunio a Thechnoleg

Asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau

Mae'r manylebau cyfredol ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch mewn Dylunio a Thechnoleg yn cynnwys asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau (a nodir fel 'gwaith cwrs' ar hyn o bryd').

Yn sgil ymgynghori â rhanddeiliaid yng Nghymru, gwelwyd yr angen i sicrhau bod y cynnwys pwnc a'r trefniadau asesu yn adlewyrchu'r broses ddylunio iteradd: er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael y cyfle i ystyried cyd-destunau, datblygu syniadau, ystyried opsiynau anghyfarwydd a mabwysiadu dull anrhagnodol o ddod o hyd i atebion, gwerthuso, mireinio a chynhyrchu canlyniadau.

Cynhelir y gweithgareddau hyn dros gyfnod estynedig o amser ac mae cysylltiad annatod rhyngddynt. Mae asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau yn fodd i gasglu tystiolaeth tuag at yr asesiad ar adegau gwahanol o brosesau dylunio a chynhyrchu'r dysgwr, gan sicrhau y gall y daith ddylunio lawn gael ei chofnodi a'i hasesu.

Cydnabyddwn fod y sgiliau a nodir ym mhob un o'r amcanion asesu yn cyfrannu at ganlyniad dylunio a gwneud llwyddiannus. Cynigiwn y dylai cyfran o'r holl amcanion asesu gael ei hasesu yn erbyn yr asesiad nas cynhelir drwy arholiadau. Bydd angen i gorff dyfarnu roi rhesymeg dros y cydbwysedd penodol o amcanion asesu a gyflawnir yn yr arholiad a'r asesiad nas cynhelir drwy arholiadau yn ei fanyleb.

Cynigiwn y dylai portffolio tystiolaeth ac arteffact gael eu llunio a'u hasesu fel rhan o'r asesiad nas cynhelir drwy arholiadau. Hefyd, cynigiwn y dylai'r asesiad nas cynhelir drwy arholiadau roi mwy o bwyslais ar gymhwyso sgiliau ymarferol nag ar ddogfennu'r broses ddylunio, fel yn y manylebau cyfredol.

Gofynion asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau

Ar hyn o bryd, mae'r pwysoliad rhwng arholiadau ac asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau ar lefel Safon Uwch yn 40% a 60%, yn y drefn honno. Yn Lloegr, cynigir pwysoliad o 50/50 ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch diwygiedig mewn Dylunio a Thechnoleg. Roedd rhanddeiliaid yng Nghymru o'r farn bod y newidiadau hyn yn briodol a'u bod yn adlewyrchu'r ffaith bod y gofynion yn uwch yn y cynnwys pwnc. Cynigiwn y dylai Cymru hefyd fabwysiadu pwysoliad o 50/50 ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch mewn Dylunio a Thechnoleg.

C12: I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau ar lefel UG a Safon Uwch gael eu pwysoli 50%?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod
- Sylwadau (a fyddech cystal â rhoi sylwadau, yn enwedig os ydych yn anghytuno â'r cynnig)



Datblygiad proffesiynol parhaus/adnoddau

C13: Yn eich barn chi, pa gymorth ac adnoddau y gallai fod eu hangen ar ganolfannau ac athrawon er mwyn bod yn gwbl barod i gyflwyno'r fanyleb ddiwygiedig? Yn arbennig, hoffem gael unrhyw wybodaeth bellach am y datblygiad proffesiynol parhaus ac adnoddau sydd eu hangen er mwyn cyflwyno'r maes ffocws dylunio cyfathrebu.

Rhowch sylwadau



TGAU, Safon UG a Safon Uwch Dylunio a Thechnoleg

Effaith ar gydraddoldeb

Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010 rhaid i gyrff cyhoeddus roi 'sylw dyledus', wrth wneud penderfyniadau, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth mewn perthynas ag unigolion na grwpiau, er mwyn cyflawni cydraddoldeb a meithrin cydberthnasau da o ran nodweddion gwarchoddedig (oedran, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hil, crefydd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth ac ailbennu rhywedd).

C14: O ystyried hyn, nodwch isod a allai unrhyw ran o'r cynnig hwn gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar unigolion â nodweddion gwarchoddedig a ph'un a fyddai unrhyw ran o'r cynnig yn peri problemau o ran hygyrchedd i ddysgwyr yng Nghymru.



Manylion personol

Cyfranogwyr dan 16 oed - gofynnir i BEIDIO â llenwi'r adran hon

Os ydych yn cyflenwi manylion cyswllt, efallai y byddwn yn cysylltu â chi am eglurhad am eich atebion. Ni fydd Cymwysterau Cymru (CC) yn rhannu'r manylion hyn, neu fanylion am eich atebion gydag unrhyw drydydd.

Manylion personol

Enw

Sefydliad

Cyfeiriad ebost

A ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran eich sefydliad?

- Unigolyn
 Sefydliad

Dewiswch y math o sefydliad neu dewiswch 'ddim yn berthnasol' os ydych yn ymateb fel unigolyn

- Ysgol
 Coleg
 Prifysgol
 Corff Dyfarnu Cymhwysterau
 Llywodraeth (Lleol, Cenedlaethol, DU neu'r UE)
 Ddim yn perthnasol
 Arall

A ydych yn: (dewiswch fel sy'n briodol)

- Athro
- Darlithydd Coleg
- Darlithydd y Brifysgol
- Myfyrwr/ddisgybl
- Rhiant
- Arall